

# Newyddlen Trafnidiaeth Llanbedr
# Transport Newsletter

Hydref/ October 2025

## Y Broses WelTAG Cam 2 a 3

Mae cam diweddaraf y prosiect i fynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth hirsefydlog sy'n wynebu Llanbedr wedi cadarnhau mai ffordd liniaru newydd yw'r ymyrraeth allweddol a fyddai'n datrys y problemau.

## WelTAG Process Stage 2 & 3

The latest stage of the project to tackle the long-standing transport issues facing Llanbedr have confirmed that a new relief road is the key intervention that would resolve the problems.









# Y Broses WelTAG Cam 2 a 3 (parhau)

Ffordd newydd, ynghyd â gwelliannau sy'n cynyddu cyfleoedd i gerdded a beicio'n ddiogel a mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, yw casgliadau gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

Gan ddefnyddio cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Gwynedd wedi arwain ar fynd â'r prosiect drwy broses Cam 2 Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) i ddod i'r opsiwn sy'n perfformio orau. Mae hyn wedi cynnwys datblygu, dadansoddi a chymharu nifer o opsiynau. Mae ymgynghoriaeth fewnol Cyngor Gwynedd, Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) wedi bod yn ymwneud yn helaeth â darparu arbenigedd amgylcheddol, dylunio, peirianneg a chynllunio arbenigol.

Yn ogystal â'r gwelliannau sylweddol i ddiogelwch a hygyrchedd, byddai'r opsiwn sy'n perfformio orau hefyd yn datgloi cyfleoedd datblygu economaidd posibl sylweddol, sy'n cynnwys gwella mynediad i faes awyr Llanbedr, a gwella gwytnwch yn gyffredinol o fewn y rhwydwaith priffyrdd lleol.

Mae'r problemau traffig yn Llanbedr wedi'u dogfennu'n dda, gyda galwadau hirsefydlog gan drigolion am weithredu. Daeth yn amlwg o asesiad WelTAG na ellir gwella'r problemau tagfeydd a diogelwch ar y ffyrdd yn y pentref yn sylweddol nac yn effeithiol heb adeiladu ffordd newydd.

# WelTAG Process Stage 2 & 3 (continued)

A new road, along with improvements that increase opportunities for walking and cycling safely and more use of public transport, are the conclusions of a working group made up of representatives from Cyngor Gwynedd, Welsh Government and Transport for Wales.

Making use of grant funding provided by the Welsh Government, Cyngor Gwynedd has led on taking the project through the Welsh Transport Appraisal (WelTAG) Stage 2 process to arrive at the best performing option. This has included the development, analysis and comparison of a number of options. Cyngor Gwynedd's in-house consultancy Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) has been heavily involved in providing specialist environmental, design, engineering and planning expertise.

As well as the considerable safety and accessibility enhancements, the best performing option would also unlock significant potential economic development opportunities, which includes improving access to Llanbedr airfield, and generally improving resilience within the local highway network.

The traffic problems at Llanbedr have been well documented, with long standing calls from residents for action. It became evident from the WelTAG assessment that the congestion and road safety issues faced in the village cannot be improved significantly or effectively without the construction of a new road.

# Y Broses WelTAG Cam 2 a 3 (parhau)

Nodwedd hanfodol o'r prosiect yw cyfranogiad, ymgysylltu a mewnbwn y gymuned leol. Canlyniad hyn oedd bod cefnogaeth gref i'r opsiynau a oedd yn cynnwys ffordd liniaru newydd. Er bod rhai pryderon wedi'u codi ynghylch sut y gallai ffordd newydd effeithio ar y dirwedd leol, bydd nodweddion i leihau ei heffaith amgylcheddol yn cael eu datblygu ymhellach wrth i'r dyluniad gael ei symud ymlaen yn fanylach.

Mae rhai mesurau cadarnhaol eisoes wedi'u rhoi ar waith sydd wedi cynnwys cynyddu amlder bysiau sy'n gwasanaethu Llanbedr. Mae llochesi bysiau newydd wedi'u gosod yn y pentref gyda mewnbwn i'w dyluniad a'u lleoliad gan Gyngor Cymuned Llanbedr.

# WelTAG Process Stage 2 & 3 (continued)

A critical feature of the project has been the involvement, engagement and input of the local community. The outcome of this being that there was strong support for the options which included a new relief road. While some concerns were raised regarding how a new road might impact on the local landscape, features to minimise its environmental impact will be developed further as the design is progressed in further detail.

Some positive measures have already been put in place which has included increasing the frequency of buses serving Llanbedr. New bus shelters have been installed in the village with input to their design and location from Llanbedr Community Council.



# Y Broses WelTAG Cam 2 a 3 (parhau)

Mae caniatâd cynllunio ar gyfer cynllun ffyrdd blaenorol hefyd wedi'i warchod. Sicrhawyd hyn gyda'r amodau gofynnol yn cael eu rhyddhau yn gynnar yn 2025 a dechrau materol ar y safle. Er bod y cynllun gwreiddiol wedi'i atal yn 2021, oherwydd Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru, mae'r opsiwn sy'n perfformio orau yn ymateb yn gadarnhaol i argymhellion y Panel drwy leihau effeithiau amgylcheddol ac esthetig.

# WelTAG Process Stage 2 & 3 (continued)

Planning permission for a previous road scheme has also been retained. This was secured with the required conditions being discharged in early 2025 and a material start undertaken on site. Whilst the original scheme was halted in 2021, due to the Welsh Government's Roads Review Panel, the best performing option responds positively to the recommendations of the Panel by minimising environmental and aesthetic impacts.







Mae Prosiect Gwella Trafnidiaeth Llanbedr wedi'i gynnwys fel blaenoriaeth uchel yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bydd ei cyflawni yn ddibynnol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y gwaith dylunio manwl pellach ac adeiladu.

The Llanbedr Transport Improvement Project has been included as a high priority in the North Wales Regional Transport Plan. Delivering it will be dependent on securing the necessary funding for the further detailed design and construction works.

# Y Broses WelTAG Cam 2 a 3 (parhau)

Mae rhagor o wybodaeth am y Prosiect, gan gynnwys adroddiad cyflawn Cam 2 WelTAG, ar gael yn: Llanbedr: Gwella trafnidiaeth

### Nodiadau

*WelTAG (Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru) yw proses Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ac arfarnu cynigion trafnidiaeth a hyrwyddir neu a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae dau brif bwrpas WelTAG yw:

1. er mwyn galluogi'r cynllun mwyaf buddiol i gael ei nodi
2. caniatáu cymharu cynlluniau ar sail debyg

# WelTAG Process Stage 2 & 3 (continued)

Further information on the Project including the complete WelTAG Stage 2 report can be found at: Llanbedr: Improving transport

### Notes

*WelTAG (Welsh Transport Appraisal Guidance) is the Welsh Government’s process for the development and appraisal of transport proposals promoted or funded by the Welsh Government. There are two primary purposes of WelTAG being:

1. to enable the most beneficial scheme to be identified
2. to allow the comparison of schemes on a like-for-like basis

## Cyfathrebu

Yn dilyn y gwaith ymgynghori gyda chymuned Llanbedr drwy broses Cam 2 bydd crynodeb o'r adborth ar gael yn Adroddiad Cryno Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Llanbedr: Gwella trafnidiaeth.

Mae cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Thrafnidiaeth Cymru ynghyd ac ymgynghorwyr WSP a YGC yn cyfarfod yn fisol fel Gweithgor i drafod/adrodd ar waith trafnidiaeth yn Llanbedr. Mae'r gwaith yn anelu i ymateb yn bositif i argymhellion Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru drwy'r broses WelTAG. Mae hyn yn golygu ystyried opsiynau ac ymyraethau amrywiol i gynnig pecynnau o fesuriadau i ddylanwadu'n bositif ar dagfeydd a phryderon diogelwch sy'n cael eu codi gan y gymuned leol ynghyd a hwyluso a hyrwyddo modd o deithio iachus a chynaliadwy, yn cynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r Gweithgor yma yn cyfathrebu gyda'r gymuned drwy'r Cynghorwyr Sir Leol Annwen Hughes a Gwynfor Owen ynghyd a Chyngor Cymuned Llanbedr, a drwy Newyddlen reolaidd.

**Mae'r wybodaeth am y gwaith gan gynnwys y Newyddlenni diweddar a blaenorol ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd drwy'r linc yma**

www.gwynedd.llyw.cymru/TrafnidiaethLlanbedr

## Communication

Following the consultation work with Llanbedr community through the Stage 2 process a summary of the feedback will be available on the Public Engagement Summary Report on Llanbedr: Improving transport.

Representatives from Cyngor Gwynedd, Eryri National Park, Transport for Wales and the Welsh Government along with consultants WSP and YGC meet every month as a Working Group to report/discuss the transport work in Llanbedr. The work is being undertaken with a view of responding positively to the recommendations of the Welsh Government's Roads Review Panel through the WelTAG process. This means considering various options and interventions to offer a package of measures that look to have a positive influence on the congestion and safety concerns raised by the local community as well as facilitating and promoting healthy and sustainable means of travel including active travel and public transport.

The Group communicates with the community through Local County Councillors Annwen Hughes and Gwynfor Owen along with Llanbedr Community Council and a regular Newsletter.

**The most recent and previous Newsletters along with information about the work is available on Cyngor Gwynedd's website through this link**

www.gwynedd.llyw.cymru/LlanbedrTransport

## Cyllid

Mae hyd at £540,000 ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2025 - Mawrth 2026 yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Trafnidiaeth Leol, Llywodraeth Cymru ar gyfer:

- Cwblhau adroddiad WelTAG Cam 2
- Ymgymryd ag astudiaeth Cam 3 WelTAG ar welliannau trafnidiaeth yn ac o amgylch Llanbedr ac ymgymryd â gweithgareddau cysylltiol datblygiad prosiect

## Finance

Up to £540,000 has been made available for the financial year April 2025 - March 2026 following a successful application to the Welsh Government Local Transport Fund:

- To complete the WelTAG Stage 2 report
- To undertake a WelTAG Stage 3 study on transport improvements in and around Llanbedr and undertake associated project development activities